# Ysgol Iolo Morganwg

## Polisi Cyfle Cyfartal

### 1. Nod ac Amcanion

Yn Ysgol Iolo Morganwg nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un, yn staff neu'n ddisgyblion, ar sail rhyw, hil, lliw croen, anabledd, crefydd, cenedl, tras ethnig neu genedligrwydd. (Gwahaniaethu)

Mae hyn yn unol â Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, ac mae'n ymwneud â gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

1.1 Trwy gyfrwng yr addysg a ddarperir yn ein hysgol rydym yn hybu'r egwyddor o degwch a chyfiawnder i bawb.

1.2 Rydym yn sicrhau bod cyfle cyfartal gan yr holl ddisgyblion i fanteisio ar yr ystod o gyfleoedd a gynigir gan ein hysgol.

1.3 Rydym yn ymdrechu'n gyson i ddileu unrhyw ffurf o wahaniaethu anuniongyrchol a all godi rhwystrau i'r dysgu.

1.4 Rydym yn sicrhau bod y recriwtio, y cyflogi, y sustemau hyfforddi a dyrchafiad yn deg i bawb, ac yn darparu cyfle i lwyddo.

1.5 Rydym yn herio Gwahaniaethu bob tro y digwydd.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

1.6 Rydym yn dathlu amrywiaethau diwylliannol sydd yn ein cymuned a dangoswn barch i bob grŵp lleiafrifol.

1.7 Rydym yn ymwybodol bod Gwahaniaethu yn digwydd oherwydd anwybodaeth a hunan ddelwedd isel. Yn ein profiadau dysgu rydym yn amcanu i annog agweddau cymdeithasol iach a pharch at eraill wrth hybu parch at farn yr unigolyn.

1.8 Hawl pob plentyn yn ddiwahân yw derbyn yr addysg orau y gall ein hysgol ei darparu, a manteisio ar yr holl weithgareddau addysgiadol a gynigir gennym. Nid ydym yn caniatáu unrhyw ffurf ar Wahaniaethu. Os bydd digwyddiad o Wahaniaethu yn yr ysgol byddwn yn gweithredu'n syth er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

Yn sgil anabledd byddwn yn cyd-weithio gyda'r Sir ac yn addasu ein cynlluniau a'r adeilad pe ddigwydd i achos godi yn yr ysgol.

1.9 Yn Ysgol Iolo Morganwg rydym yn ymdrechu i greu awyrgylch groesawgar i grwpiau lleiafrifol. Felly, er enghraifft, rydym yn cael gwared ag unrhyw graffiti tramgwyddus yn syth. Mae'r pynciau a astudir gan y disgyblion yn annog dealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y gwaith a gaiff ei arddangos yn yr ysgol.

2.0 Mae ein cwricwlwm yn adlewyrchu'n hagweddau a'n gwerthoedd, a'r parch sydd gennym tuag at grwpiau ethnig lleiafrifol. Felly, er enghraifft wrth drafod gwyliau crefyddol y

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

cwricwlwm addysg grefyddol, rydym yn edrych ar bwysigrwydd Diwali i'r Hindŵ a'r Sikh.

2.4 Os bydd unrhyw un o fewn ein hysgol yn dioddef oherwydd Wahaniaethu byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cynorthwyo i oresgyn eu problemau.

**3 Rôl y llywodraethwyr**

3.1 Mae'r polisi hwn yn datgan ymrwymiad y corff llywodraethol i gyfle cyfartal, a bydd yn parhau i wneud y cyfan y gall er mwyn sicrhau bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

3.2 Mae'r corff llywodraethol yn ceisio sicrhau nad ydym yn Gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anawsterau wrth ymgeisio am swyddi yn yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn gwneud yr hyn a allant er mwyn sicrhau bod safle'r ysgol yn briodol ag anabledd corfforol.

3.3 Yn eu hadroddiad blynyddol bydd y corff llywodraethol yn cyfeirio at y trefniadau a wneir ar gyfer disgyblion anabl.

3.4 Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau na Wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn tra y bydd yn yr ysgol. Felly, er enghraifft, mae pob plentyn yn cael manteisio ar ystod eang y cwricwlwm. Mae'r rheolau ynglŷn â'r wisg ysgol yn cael eu cymhwyso yn gyfartal i fechgyn a merched. Pan fydd crefydd y plentyn yn cael effaith ar y wisg ysgol, yna bydd yr ysgol yn delio â'r mater yn dyner ac yn parchu traddodiadau diwylliannol y plentyn.

4. **Rôl y pennaeth**

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

4.1 Cyfrifoldeb y pennaeth yw gweithredu'r polisi cyfle cyfartal a bydd y corff llywodraethol yn cefnogi'r broses.

4.2 Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bolisi cyfle cyfartal yr ysgol, a sicrhau bod yr athrawon yn gweithredu'r argymhellion yn deg ym mhob achos.

4.3 Mae'r pennaeth yn sicrhau bod panel apwyntio yn talu sylw priodol i'r polisi, fel na fydd Gwahaniaethu yn digwydd wrth apwyntio a hyfforddi.

4.4 Wrth ddatblygu'r cwricwlwm bydd y pennaeth yn hyrwyddo'r egwyddor o gyfle cyfartal, ac yn hybu parch at eraill ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

**5. Rôl yr athrawon**

5.1 Mae'r athrawon yn ein hysgol yn ystyried bod pob math o Wahaniaethu yn erbyn unrhyw un yn annerbyniol.

5.2 Os bydd athrawon yn dyst i weithred o Wahaniaethu byddant yn gwneud popeth sydd o fewn eu gallu i gynorthwyo'r plentyn sy'n dioddef. Os bydd yr achos yn parhau dros gyfnod o amser, yna bydd yr athrawon yn cael gair gyda'r pennaeth, a bydd y pennaeth yn hysbysu'r rhieni. Fe fydd pob digwyddiad yn cael ei gofnodi.

5.3 Mae athrawon Ysgol Iolo Morganwg yn ymdrechu i gynorthwyo pob disgybl a chreu ymdeimlad o ymddiriedaeth a pharch tuag at bawb. Wrth ganmol, gwobrwyo a dathlu llwyddiant plant, rydyn ni'n fuddiol y byddwn yn atal achosion o Wahaniaethu.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

## 6 Rôl y Rhieni

6.1 Mae rôl rhieni yn bwysig er mwyn annog eu plant i ddangos parch tuag at eraill ,gan herio Gwahaniaethu.

6.2 Os bydd rhieni'n gofidio bod eu plentyn yn dioddef o Wahaniaethu, neu'n amau bod eu plentyn yn dangos ymddygiad gwahaniaethol, dylent hysbysu'r athro/athrawes dosbarth yn syth.

6.3 Os oes Gwahaniaethu yn digwydd dylai'r rhieni a'r staff drefnu amserlen fel bod amser digonol i ymchwilio i'r mater a delio'n effeithiol gyda'r problemau, a fel bo'r rhieni yn deall pryd y gallan nhw ddisgwyl cael ymateb.

6.4 Dylai rhieni'r plentyn sy'n cael ei amau o Wahaniaethu cael rhan gadarnhaol yn y strategaethau er mwyn datrys y mater. Mae cyfrifoldeb ar y rhieni i gefnogi polisi cyfle-cyfartal yr ysgol, ac annog eu plant i fod yn aelodau cadarnhaol o'r ysgol.

6.5 Dylai rhieni fod yn ymwybodol y gallant drafod eu gofidiau gyda staff yr ysgol eto os ydynt yn teimlo bod y digwyddiadau yn parhau.

Cytunwyd ar y Polisi : Mawrth 2008

Adolygir y Polisi……………………………

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image